

# Disgrifiad Swydd: Ysgrifennydd

Mae Ysgrifennydd y Clwb yn swydd ganolog. Dyma bwynt canolog o ran gweinyddu'r clwb, gan drin holl ohebiaeth y clwb. Mae'n swydd â phroffil uchel sydd yn cael effaith fawr ar y modd effeithlon ac yn effeithiol y bydd clwb yn cael ei reoli.

## Sut byddwch chi'n elwa o'r swydd?

- Ymdeimlad o hunan gyflawniad a rhoi yn ôl i'r gymuned
- Swydd allweddol yn eich cymuned
- Cwrdd â llawer o bobl o wahanol gefndiroedd
- Cyfle i ddatblygu sgiliau
- Datblygiad gyrfa posibl / cyflogadwyedd gwell
- Potensial i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau newydd

## I bwy y byddaf i'n atebol?

- Y Cadeirydd

## Pwy fydd yn atebol i mi?

- Ysgrifennydd y Gemau ac Ysgrifennydd y Canolwr / Dyfarnwr

## Yn ddelfrydol, bydd angen i chi fod:

- Yn drefnus ac yn effeithlon iawn.
- Â phrofiad o ran sgiliau cyfrifiadurol a gweinyddol
- Yn gallu cynnal cyfrinachedd
- Yn gyfathrebwr da, ar bapur ac ar lafar.
- Â sgiliau gwrando da

## Yr hyn y byddwch chi'n ei wneud:

- Bod yn 'brif weinyddwr' ar gyfer y clwb, gan ddelio â phob gohebiaeth y clwb, gan ddsbarthu i swyddogion perthnasol am ymateb lle bo angen
- Paratoi a dosbarthu agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor
- Cymryd cofnodion holl gyfarfodydd o Bwyllgor y Clwb a dosbarthu copïau
- Cadw copïau wedi'u llofnodi o holl gofnodion y cyfarfodydd
- Cynnal neu ddirprwyo'r holl ddyletswyddau gweinyddol; gan alluogi'r clwb i redeg yn esmwyth
- Gweithio ochr yn ochr â'r trysorydd i weld bod yr holl ddogfennau ymgysylltu/cofrestru yn gywir ac yn cael eu talu ar amser
- Sicrhau bod gan bob aelod copi o lawlyfr y clwb, manylion yswiriant a chysylltiadau swyddogion ac ati
- Mynychu cyfarfodydd sir a chynghrair (fel y bo'n briodol)
- Trefnu a chadw cyfleusterau gemau a chysiau mewnol ar gyfer y tymor
- Trefnu a mynychu cyfarfod blynyddol y clwb a chyfarfodydd eraill y clwb.

## Faint o amser y bydd yn ei gymryd?

- Tua 6-8 awr yr wythnos, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur eich clwb / sefydliad chwaraeon. Bydd peth o'r gwaith yma'n ofynnol ar benwythnosau a gyda'r nos.

## Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso ichi gysylltu â:

*(Rhowch fanylion cyswllt y Cadeirydd yma)*